Fel y soniwyd yn y llythyr ddoe, fe fydd Llywodraeth Cymru yn darparu arweiniad i ysgolion yr wythnos nesaf ac fe fyddwn ni yn Ysgol Glanrafon yn ystyried y canllawiau yma yn drwyadl wrth sicrhau bod y disgyblion yn dychwelyd yn rhwydd a diogel i'r ysgol. Ein prif flaenoriaeth yw cadw plant a staff yr ysgol yn ddiogel.
Rydym yn deall fod gan pob un ohonoch bryderon, ac efallai ei bod yn anodd i chi ymateb i'r holiadur ar hyn o bryd, ond mae'r ymatebion yn rhoi syniad i ni faint o blant sydd yn bwriadu dychwelyd, ac yn gymorth wrth i ni ddechrau cynllunio ar gyfer ail agor. Hoffwn eich sicrhau ein bod yn asesu ein sefyllfa'n rheolaidd yn Ysgol Glanrafon, ac eisoes wedi dechrau cynllunio ar ba ddiwrnodau y bydd eich plentyn/plant yn gallu mynychu'r ysgol. Os gwelwch yn dda, gofynnwn i chi fod yn amyneddgar wrth i ni ddatblygu'r trefniadau yma. Gallwn eich sicrhau y byddwn yn rhoi digon o rybudd wrth eich hysbysu o'r trefniadau.
Rydym yn sylweddoli fod gan rhai ohonoch bryderon eraill, ac y byddech yn gwerthfawrogi cael sgwrs dros y ffôn. Os hoffech air gydag aelod o'r Uwch Dîm, mae croeso chi ffonio'r ysgol bnawn fory (05.06) rhwng 1 a 3 o'r gloch. Peidiwch â chysylltu i holi am y trefniadau uchod oherwydd nid oes gennym yr holl atebion tan i'r canllawiau ddod allan wythnos nesaf, ond am unrhyw beth arall, croeso i chi gysylltu.

*As was noted in yesterday's letter, Welsh Government will be giving schools further guidance next week, and we, at Ysgol Glanrafon will be rigorously following these guidelines as we ensure that the pupils return safely and smoothly to school. Our main priority is the safety of our pupils and staff.*
*We understand that you all have your worries, and maybe it's difficult for you to respond to the questionnaire at this time, but the responses will help us to see how many children will be returning and assist us with the planning process for re-opening. We assure you that we at Ysgol Glanrafon are continually assessing the situation, and have already begun to plan on what days your child/ren will be coming to school. We kindly ask you to be patient with us as we develop these arrangements. We can assure you that we will inform you of the arrangements as soon as possible.*
*We understand that some of you may have other concerns, and would appreciate discussing these on the phone. If you would like to have a conversation with a member of the School's Management Team, you are welcomed to phone the school tomorrow afternoon (05.06) between 1 and 3 p.m. Please do not contact to enquire about the above arrangements as we do not have all the answers until the guidelines are given to us next week, but for any other matter, you are welcomed to contact.*